Cofnodion: Grŵp Ecosystem Glaswelltir a Gweundir Cymru

Cyfarfod 2: 1af Mai 2009 - Cynhadledd Fideo CCGC Plas Penrhos Bangor, CCGC Aberystwyth a CCGC Llaneirwg Caerdydd.

Presennol:

Bangor

Dave Lamacraft RSPB

Caroline Wilson SNP

Carrie Rimes CCGC

Stuart Smith CCGC

Charles Morgan PONT

Jan Sherry CCGC

Helen Buckingham NT

Trevor Dines Plantlife

Aberystwyth

Richard Evans WAG

Llaneirwg Caerdydd

Gemma Bode GWT

Juliet Hynes WBP

Ivy Berkshire Flora locale

Ymddiheuriadau:

Sheila Spence Mycolegydd Maes

Chris Tucker FCW

Nick a Kyra Somerfield FUW

Eitem	Trafodaeth	Cam Gweithredu	Cynnydd
1. Ymddiheuriadau	Gweler uchod		
2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf, y diweddaraf ar gamau gweithredu nas cwmpesir isod	Cynnydd ar gamau gweithredu a nodwyd yng Nghofnodion cyfarfod 1. Camau gweithredu heb eu cymryd isod: C1. Aelodaeth, os na all Bethan Cox awgrymu unrhyw un o Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) Sir Benfro, dylid cysylltu â Mike Howe Parc Cenedlaethol Penfro, neu Sion	1. JH i fynd ar drywydd cynrychiolaeth gweundir ar y grŵp	Wedi e-bostio Mike a Sion, Sion Brackenbury wedi

	Brackenbury, Gŵyr i gael cyfraniad Gweundir.		derbyn, e-byst at Mike heb gyrraedd
	C2. Cylch Gorchwyl Glaswelltir a Gweundir, cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru wedi'i ddosbarthu i'r grŵp	2. Pawb - dylid cyfeirio unrhyw sylwadau pellach ar y cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru at Juliet os gwelwch yn dda	Cwblhawyd
	Coedwigaeth - erthygl ar adfer gweundir yn rhifyn diweddaraf British Wildlife.		
	C22. Polisi Cynefinoedd Agored - Angen i'r grŵp polisi ailgychwyn y prosiect polisi cynefinoedd agored	3. Trosglwyddo i'r grŵp polisi	Cwblhawyd - Wedi'i gynnwys ar y templed materion polisi
	C 23. Dolydd o dan 3 ha - Ivy am dynnu sylw at hwn fel mater pwysig iawn. Hilary o AGAP eisoes wedi pennu llain ar gyfer Ynys Môn, tua 40 ha, Angen dechrau cynllun ariannu ledled Cymru. Yn cyd-fynd â gwaith ar safleoedd 2^{il} haen a awgrymwyd yn WBP.	4. JS, i dynnu sylw at hwn fel mater pwysig yng nghyfarfod y Grŵp Polisi ddydd Mawrth (5^{ed} Mai).	Cwblhawyd - Codwyd yn y Grŵp Polisi - templed ar gyfer nodi a blaenoriaethu camau gweithredu

		5. Carrie/Stuart, cynnwys dolydd bach yn y cynllun gweithredu glaswelltir, gellir ei drafod yng nghyfarfod nesaf y grŵp Glaswelltir a Gweundir.	polisi wedi'i ddatblygu, dylid defnyddio hwn i nodi'r materion pwysicaf ar gyfer ein cynefinoedd
	Arian y DU - Magnificent Meadows, Donna Radley yw'r swyddog prosiect. Os oes gennych brosiectau posibl angen i chi gysylltu â hi. Dylem gasglu syniadau a'u hanfon at Donna o fewn yr ychydig fisoedd nesaf.	6. CR - dosbarthu opsiynau gwahanol gan Donna 7. Yn dilyn hyn dylai JH eu dosbarthu i LBAPs ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt a nodi terfyn amser i gyflwyno syniadau prosiect i ni	Trafodwyd fel eitem ariannu yng nghyfarfod 3

		cyn cyfarfod nesaf y grŵp Glaswelltir a Gweundir	
	C 27. Plant-link Cymru yn edrych ar leiniau ymyl ffordd, gan geisio cadw cofnod o'r hyn sy'n digwydd iddynt gyda'r bwriad o lunio canllawiau rheoli lleiniau ymyl ffordd ar gyfer Cymru gyfan.	8. JH i anfon y diweddaraf am leiniau ymyl ffordd Powys at Trevor Dines	Cwblhawyd a gwybodaeth fwy diweddar wedi'i hanfon hefyd.
	C 31. Cyfarfod Grŵp Tir Ffermio Iseldir Lloegr heddiw (1af Mai). Gobeithio y bydd yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am sut y caiff y Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Cynefin (HAP) hyn eu gweithredu yn y DU. Bydd rhywun o Grŵp Tir Ffermio Cymru, a Carrie a Stuart o'r grŵp hwn, yn ein cynrychioli ar Grŵp Tir Ffermio Iseldir y DU. Grŵp Tir Ffermio Lloegr yn awyddus i bwyso am grwpiau cynefin unigol yn y DU, gydag ymdrech ar y cyd gallem oll bwyso am hyn.	9. CR a JS i siarad â Grŵp Tir Ffermio Cymru a llunio amlinelliad drafft o'r hyn yr hoffem ei weld yn digwydd yn y DU. Ei drafod â Diana Reynolds yn dilyn hyn. Carrie i ganfod beth oedd penderfyniad grŵp Lloegr hefyd.	CR wedi siarad â grŵp y DU, roeddent ymhell ar ei hôl hi felly dim cynnydd eto
3. Echel 2.	Echel 2 yn amhendant hyd nes bod y gweinidog yn gwneud ei phenderfyniad ar ba un o'r 3 opsiwn y dylid ei gymryd. Amserlen dynn iawn. Rhaid penderfynu ar y cynllun lefel mynediad erbyn wythnos nesaf, rhaid iddo fod gyda'r UE erbyn diwedd mis Mehefin. Ychydig mwy o amser gan y cynllun lefel uwch.		

	Angen i amodau lefel mynediad fod yn syml iawn, e.e. gofyn iddynt beidio â gwneud pethau neu wneud newidiadau syml fel peidio â thorri silwair yr un uchder er mwyn sicrhau amrywiaeth. Gweundir - dim ond 10-15% o ros iseldir sydd o fewn safleoedd statudol (SoDdGA). Mae gan gynlluniau amaeth-amgylchedd y potensial i gwmpasu'r rhan fwyaf o'r gweddill. Nid oes gennym ffigurau ar gyfer gweundir o dan yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol na pherchenogaeth amddiffynnol bosibl arall ar hyn o bryd (er y dylid nodi y gallai fod gan dir NT ffermwyr tenant o hyd). Mae gwaith adfer gweundir yn galed ac yn gostus felly tueddir ei wneud drwy brosiectau penodol yn hytrach na Tir Gofal. Mae Tir Gofal yn well ar gyfer sicrhau cyflwr safleoedd presennol. CM - angen edrych ar ddull gweithredu wedi ei lywio gan ganlyniadau, wedi bod yn ystyried llunio canllawiau yn cynnwys canlyniadau darluniol y byddai'r ffermwr yn ceisio eu cyflawni. Cytunodd RE fod hwn yn syniad da ond o dan reoliadau'r UE mae'n rhaid bod amodau'n sail iddynt o hyd felly'n anodd ei weithredu.		

	Awgrymiadau ar gyfer amodau Gweundir lefel Mynediad: ▪ Dim gwella gweundir yn amaethyddol. ▪ Cyfyngu ar lefelau pori (gellid rhoi canllaw gweledol i'r porwr ar sut olwg ddylai fod ar y gweundir), mwy o fanylion am batrymau pori amrywiol e.e. pori trwm yn y gwanwyn, ysgafnach yn y gaeaf. ▪ Llosgi **Lefel uwch:** ▪ Patrwm pori amrywiol ar safleoedd penodol drwy gydol y flwyddyn, - angen rhoi mwy o ganllawiau a rhoi'r wybodaeth hon i swyddogion prosiect cynlluniau Amaeth-amgylchedd. ▪ Stoc pori wahanol - gwahaniaethu'n glir rhwng mathau gwahanol o bori gan anifeiliaid pori gwahanol. Gellid rhoi pwyntiau ychwanegol os ymrwymir i ddefnyddio'r math cywir o anifail pori. Roedd y premiwm pori gwartheg ychwanegol yn Tir Gofal yn apelio at ffermwyr, gellid ei ymestyn i fathau eraill o stoc e.e. merlod brîd brodorol. ▪ Gwaith cyfalaf = adfer e.e. clirio prysgwydd, rheoli grug	10. JS/CR i weld beth sydd wedi'i wneud eisoes yn Lloegr gan nad oes diben dyblygu gwaith.	Wrthi'n gwneud hyn, dylid bod wedi'i wneud erbyn y cyfarfod nesaf

	hen iawn, gridiau gwartheg, cafnau, rheoli traffig ar y tiroedd comin e.e. arwyddion. ▪ Torri a llosgi ▪ Rheoli ffosydd a phyllau dros dro ▪ Mwy o waith symud stoc o safle i safle - cymorth lefel uwch ar gyfer profion TB a chyfleusterau ar gyfer hyn. Glaswelltir iseldir - Mae llai na 5% o'r holl laswelltir iseldir heb ei wella yng Nghymru ar SoDdGA, er bod amrywiaeth rhwng y ffurfiau gwahanol (mae tua 40% o dir niwtral heb ei wella a thir calchaidd heb ei wella ar SoDdGA). **Glaswelltir - lefel mynediad:** Un o'r problemau lefel mynediad yw na fydd y ffermwr yn gwybod o reidrwydd pa fath o laswelltir sydd ganddo. Efallai y gellid asesu a yw'r tir wedi'i wella/heb ei wella/yn wlyb/sych. • Byddai gofyniad i bori ardaloedd o laswelltir corsiog â llawer o dda byw (gwartheg/merlod) yn dwyn buddiannau sylweddol ledled Cymru.	11. CR - dosbarthu papur FYM o arbrofion IGER Pentwyn. 11a. DL i ddrafftio awgrymiadau ynghylch amodau Echel 2 a'u dosbarthu i'r rhai sy'n mynd i'r cyfarfod Grŵp Polisi ddydd Mawrth. 12. JH i gyfeirio at ddiffyg	Cariwyd ymlaen Cyfarfu'r is-grŵp i wneud hyn, anfonwyd at Lywodraeth Cynulliad Cymru gan HB

	▪ Ni allai NPK neu FYM ar laswelltir wedi'i wella fod ar lefel mynediad ond mae'n dibynnu ar y ffermwr i nodi cyflwr y glaswelltir. **Lefel uwch:** ▪ Math o stoc pori ▪ Lefel pori ▪ Mater pwysig arall yw cyfoethogi, er bod angen cynnal cynhyrchiant ar ddolydd gwellt o hyd felly mae Tail Fferm (FYM) ac amodau calchu yn bwysig. ▪ Mae amodau presennol Tir Gofal ar gyfer glaswelltir iseldir yn briodol ar y cyfan. Mae'n bosibl nad yw bioamrywiaeth yn uchel ar yr agenda lefel mynediad. Mae angen i WBP bwysleisio'r pwynt y dylai pawb fod wedi bod yn ymwneud ag amodau Echel 2 yn gynharach.	amser i gyfrannu at Echel 2, yng nghyfarfod tîm nesaf WBP	Daethpwyd â hyn at sylw Diana Reynolds a Dai Harries gan nifer o bobl.
4. Cynllun Gweithredu	Cytunwyd y dylid ailbennu targedau i gyd-fynd â'r pedwar math o darged safonol: Cynnal Graddfa, Sicrhau Cyflwr, Adfer, Ehangu.		

Gweundir	Angen methodoleg gwneud penderfyniadau ar gyfer ardaloedd creu cynefin, fframwaith strategol i Gymru yn nodi safleoedd posibl; beth fyddai'n dwyn y buddiannau mwyaf i fioamrywiaeth ymhen 100 mlynedd. Cymru gyfan, pob cynefin, pwy fyddai'n arwain, angen cyflwyno hyn i WBP. Angen uno'r holl brosiectau cysylltedd presennol.	13. Anfon ymlaen at y grŵp polisi a WBP	Cwblhawyd - wedi'i ychwanegu at y templed materion polisi
	Templed camau a awgrymwyd	14. TD i ofyn i bob grŵp ychwanegu colofn ychwanegol i gofnodi cynnydd ar gamau gweithredu hyd nes bod y grwpiau wedi'u gosod ar BARS.	Cariwyd ymlaen
	Trafodwyd y camau gweithredu dan sylw, gwnaeth Jan newidiadau	15. JS - dosbarthu tabl wedi'i	Wedi'i oedi o

	yn ystod y cyfarfod Angen ychwanegu camau gweithredu pori o ran sicrhau cyflwr at y rhestr, angen nodiadau cyngor i gydfynd â'r camau gweithredu hyn - dylid nodi system godio ar gyfer nodiadau cyngor.	ddiweddaru i'r grŵp. 16. JS i ychwanegu camau gweithredu pori at y rhestr a drafftio/dod o hyd i nodiadau cyngor 17. JH i sefydlu system godio ar gyfer nodiadau cyngor a fydd yn gweithio ar BARS.	ganlyniad i golli ffeil, bwriadwyd iddo fod yn eitem yng nghyfarfod 3 ond JS yn sâl. Cyflawnwyd Parhaus
	Mae gan Jan arian ar gyfer asesiad cyflwr 3 blynedd ar gyfer gweundir yn Eryri	18. JS i e-bostio'r manylion at y grŵp	Cwblhawyd
	Samplau yn cael eu casglu gan organebau lletyol *Phythoptera* posibl	19. JS i e-bostio nodyn at JH i fynd ar wefan WBP.	Cariwyd ymlaen
	Cynllun gweithredu glaswelltir	20. Pawb - dylid cyflwyno unrhyw gamau gweithredu ar gyfer y cynllun glaswelltir i Carrie cyn cyfarfod nesaf y	

		grŵp Glaswelltir a Gweundir	
	Glaswelltir calaminaraidd - disgrifiad llawn ar wefan JNCC a Chynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth. Rhoddodd Stuart gyflwyniad byr ar laswelltir Calaminaraidd. Rhai safleoedd newydd yn bosibl lle ceir chwarela. Yn Eryri, mae rhai o'r safleoedd calaminaraidd posibl yn SoDdGA nad ydynt yn ACA hefyd.	21. CW i anfon manylion y safleoedd hyn at Stuart 22. Pawb, gofyn i bobl edrych am safleoedd calaminaraidd posibl a'u hanfon at Stuart, JH i gysylltu â LBAPs.	Stuart yn ymwybodol o'r safleoedd hyn Wedi anfon e-bost at LBAPs, 2 ymateb wedi'u hanfon ymlaen at Stuart
5. Cyfeirio rhywogaethau	Mae Grŵp Arbenigol Rhywogaethau Cymru (SEG) yn penodi partneriaid arweiniol i bob un o'r rhywogaethau. Hefyd yn datblygu targed rhywogaethau a thempled gweithredu, bydd targedau a gweithredoedd ar lefel Cymru ar gyfer pob rhywogaeth yn y pen	23. TD, JS - Anfon y rhestr weithredu cynefinoedd/rhywogaethau o'r ymarfer cyfeirio at y grŵp	Cyflawnwyd

	draw; Bydd y gyfran 1af o'r rhain ar gael o gwmpas mis Mehefin gobeithio. Crybwyllodd Stuart brosiect CCGC parhaus gyda BSBI a CEH yn ymchwilio i nodweddion rhywogaethau planhigion glaswelltir o dan fygythiad yn y DU. Bwriedir llunio llyfr canllaw maes o law.	Glaswelltir a Gweundir.	
6. Diweddariad ar lafar ar gynllun pori Cymru gyfan	CM - Pori Cymru Gyfan: adran 15 a chynlluniau amaeth-amgylchedd heb gyflawni mewn perthynas â phori felly ceisio sefydlu'r cynllun hwn. Ni fydd yn digwydd ledled Cymru ar unwaith, ni ellir dweud pa ardal fydd gyntaf hyd nes bod yr ardal honno wedi cael gwybod. Dylai gynyddu'r manteision bioamrywiaeth o ran SoDdGA i helpu i gyflawni targedau Canlyniad 21. Caiff nifer o gynlluniau pori rhanbarthol eu datblygu. Byddwn yn gwybod mwy erbyn cyfarfod nesaf y grŵp Glaswelltir a Gweundir a dylem allu dosbarthu rhywbeth ymlaen llaw.	24. CM - dosbarthu gwybodaeth am gynnydd cynllun pori Cymru gyfan cyn cyfarfod nesaf y grŵp Glaswelltir a Gweundir	Papur i'w Nodi ar gyfer WBPSG8 Cliciwch yma i gael y ddolen i'r ddogfen
7. UFA	Ardaloedd Planhigion Pwysig; mae'r rhain wedi'u barnu ar sail meini prawf rhyngwladol. O blith 155 o safleoedd yn y DU, mae 23 yng Nghymru. Cynhelir ymgyrch gyhoeddusrwydd yn fuan. Gweler gwefan Plantlife i gael rhagor o wybodaeth.		

	Cynlluniau ehangu cynefinoedd - "plant an acre" Coed Cadw a Million Ponds; angen sicrhau y caiff safleoedd eu hasesu'n briodol ar gyfer eu haddasrwydd ac na chyflawnir un cynefin â blaenoriaeth ar draul un arall	25. HB i siarad â chadeirydd y grŵp ecosystem coetir 26. JH i'w godi yng nghyfarfod tîm nesaf WBP - angen meini prawf o ran pryd mae'n iawn i newid un cynefin i un arall. Yn iawn os yw ar y safle cywir. Gwahodd swyddogion prosiect priodol i gyfarfod o bosibl 27. JH i'w ddwyn i sylw LBAPs	Cariwyd ymlaen Codwyd yn y cyfarfod - rhan o gamau gweithredu'r grŵp polisi Cyflawnwyd - ei gynnwys yn y negeseuon allweddol ar gyfer cydgysylltwyr LBAP, Mai 09
8. Dyddiad y cyfarfod nesaf	Dydd Gwener 3ydd Gorffennaf yn Swyddfa CCGC, Tŷ Ladywell, Y Drenewydd gobeithio	28. JH i gadarnhau'r lleoliad	Ystafell Fwrdd, Y Llanfra,

	Pwyntiau trafod: ▪ Haen uchaf Echel 2 ▪ Cynllun gweithredu glaswelltir ▪ Cynlluniau gweithredu rhywogaeth		Aberystwyth 3ydd Gorffennaf 10.30am - 3.30pm
Camau gweithredu ychwanegol wedi'u cario ymlaen o'r cyfarfod diwethaf	C9 - angen nodi'r gwahaniaethau rhwng targedau'r DU a mathau o dargedau safonol a rhoi gwybod i bawb yn ESG yn briodol	29. JH a JS	parhaus
	C10 - Arolwg Cefn Gwlad diwethaf wedi cofnodi 9000ha, nid yw Jan yn credu bod 3000 ha wedi'i golli, yn fwy tebygol o fod wedi'i gynnwys mewn gwaun uchel	30. JS	mae gennym y data ardal ar gyfer gwaun uchel a gweundir isel a gofynnwyd iddynt anfon llinell ffin ucheldir/iseldir ar ffurf GIS. Rwy'n dal i aros i glywed

			a oes ganddynt linell ddigidol y gallaf ei defnyddio - parhaus
	C15 - Gallai gweundir isel Targed 4 wneud rhywbeth tebyg i Gymru ag y gwnaeth RSPB yn Lloegr. Targed 5, angen gwneud rhagor o waith i gael data i Gymru.	31. DL i gysylltu â Nigel Webb i gael methodoleg o'r prosiect HEAP	parhaus
	C17 - Glaswelltir Calaminaraidd ar Benrhyn Llŷn - ar gyfer ychydig o safleoedd bach yma	32. DL i anfon gwybodaeth am safleoedd at Stuart	cyflawnwyd
	C19 - Glaswelltir Calaminaraidd, angen ystyried cyd-destun y DU ar gyfer pennu targedau hefyd	33. Stuart a Carrie, trafod ar lefel y DU.	Yn aros am gyfarfod y DU